



Vale School Governors' Association

Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

and Governor Support Unit

Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Diolch i bawb a lofnododd ein deiseb i'r Senedd ynglŷn â'r cyllid annigonol i ysgolion yng Nghymru.

Y prynhawn yma, 13 Tachwedd, rwyf i a thri chydweithiwr wedi bod yn rhoi tystiolaeth ar gais Pwyllgor Deisebau'r Senedd ynglŷn â'r sefyllfa enbyd o ran cyllid ysgolion yng Nghymru. Y nod oedd tynnu sylw at yr hyn y mae hyn yn ei olygu mewn termau ymarferol i'r bobl ifanc yn ein hysgolion, y pwysau ar arweinwyr ysgolion ac ar Gyrrff Llywodraethu. Gallwch chi wylïo'r sesiwn gyfan ar <https://www.senedd.tv/Meeting/Archive/c383373b-9631-47d1-b91b-a70cab3d1367?autostart=True>

Mae gan ysgolion oblygiadau sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru o ran darparu addysg briodol, amgylchedd diogel yn nhermau adeiladu a diogelu, Cwricwlwm i Gymru, darpariaeth ADY briodol ac ati. Nid yw'r arian a roddir iddynt yn ddigon i gyflawni'r rhwymedigaethau hynny. Felly mae nifer o ysgolion yng Nghymru wedi gosod cyllidebau â diffyg. Fel arfer mae hynny'n golygu bod yr ysgol yn gorwario ac yn talu'r awdurdod lleol yn ôl dros dair blynedd. Nid yw 40% o ysgolion y Fro yn gallu gosod cynllun ad-dalu ar gyfer y diffyg eleni.

Yn ymuno gyda mi yr oedd:

- Matt Gilbert, Pennaeth Ysgol Gynradd Ynys y Barri a fu'n sôn am effaith toriadau cyllideb mewn arlwyio ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae modd gosod cyllideb ond ni fydd modd ei rhoi ar waith os bydd angen mwy o

Gynorthwywyr Addysgu i ddiwallu anghenion pob plentyn. Mae gorwario yn anochel i ddarparu addysg deg i bob disgybl.

- Dave Blackwell, Pennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a fu'n siarad am y dewisiadau anodd sydd eu hangen i gyflwyno cwricwlwm cytbwys a'r cynnydd yng nghymarebau disgyblion i athrawon. Soniodd hefyd am yr annhegwch o ran cyllid rhwng ysgolion tebyg mewn gwahanol rannau o Gymru.
- Laurence Matuszczyk, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Merthyr Tudful a fu'n siarad yn huawdl am y sefyllfa anodd i lywodraethwyr ysgolion, sy'n gorfod cyflwyno'r canlyniadau yn sgil cyllid isel. Soniodd am orfod eistedd ar baneli diswyddo ac am ddyletswydd gofal pob Corff Llywodraethu o ran lles Uwch Arweinwyr yn eu hysgolion.

Bydd y Pwyllgor yn rhannu ein pryderon gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r llywodraethwyr am sut mae pethau'n datblygu.

Dr Martin Price

Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn Gatholig Sant Richard Gwyn

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk

Francesca Wright

Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
ffôn: 01446 709125
e-bost: fwright@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Rhifyn 56 Tymor y Hydref 2023

Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Diweddariad Adnoddau Dynol i Ysgolion

Dyfarniad Cyflog Athrawon

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y dyfarniad cyflog i staff addysgu sef 5% ar draws pob graddfa a lwfans yn weithredol o 1 Medi 2023. Bydd y dyfarniad yn cael ei dalu yng nghyflogres mis Tachwedd, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Medi.

Nodyn i'ch atgoffa o'r pwyntiau a oedd wedi'u cynnwys yn nogfennau'r llynedd / dogfennau blaenorol:

Dyfarniadau Cyflog

Mae dilyniant ar y brif raddfa / graddfa arweinyddiaeth yn flynyddol oni bai bod gweithdrefnau gallu ffurfiol wedi'u rhoi ar waith.

Graddfa gyflog uwch

Gall athrawon wneud cais i fynd ar y Raddfa Gyflog Uwch yn flynyddol a chael asesiad i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol (adran 15 yn y ddogfen).

Unwaith y byddant ar y Raddfa Gyflog Uwch, mae dilyniant ar sail bob dwy flynedd, oni bai bod gweithdrefnau gallu ffurfiol wedi'u rhoi ar waith.

Dyfarniadau CAD

Dyfernir CADau am ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol parhaus, at y diben o sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddarparu ac y mae'r athro yn atebol amdano. Mae dau ddyfarniad parhaol, CAD 1 (sy'n gofyn am gyfrifoldeb am reoli nifer sylweddol o staff) a CAD 2. Diwygiwyd y ddogfen y llynedd mewn perthynas â dyfarniadau i athrawon rhan amser fel isod:

'Gellir pennu lwfansau (ac eithrio ar gyfer CAD3) ar gyfer athro rhan amser yn unol â'r egwyddor pro-rata a dim llai na'r oriau gwaith dan gontract neu gellir penderfynu eu talu'n llawn, os yw'r athro'n ymgymryd â'r dyletswyddau llawn sy'n gysylltiedig â'r lwfans. Dylai'r dyletswyddau a gytunwyd allu cael eu cyflawni o fewn oriau arferol yr athro rhan amser dan sylw. Dylid cytuno ar lefel briodol y taliad lwfans a'r dyletswyddau rhwng yr athro unigol a'r cyflogwr.'

Mae dyfarniadau CAD 3 yn gyfyngedig o ran amser ar gyfer prosiectau penodol yn unig.

Ar gyfer pob swydd CAD mae angen disgrifiad swydd yn amlinellu'n glir y cyfrifoldebau ychwanegol. Mae unrhyw newidiadau i swyddi / gwerthoedd / strwythurau CAD yn destun ymgynghoriad priodol o fewn yr ysgol.

Polisi Tâl

Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynhyrchu polisi cyflog Cymru gyfan ac mae cydweithwyr AD o CCD yn cyfrannu at hyn. Bydd diweddariad pellach yn dilyn unwaith y cytunir ar y ffordd ymlaen.

Isod mae dolenni i ddogfennau perthnasol.

Datganiad Ysgrifenedig: Dyfarniad Cyflog Athrawon 2023 (5 Hydref 2023) | LLYW.CYMRU

Datganiad Ysgrifenedig: Dyfarniad Cyflog Athrawon 2023 (5 Hydref 2023) | LLYW. CYMRU

Fersiwn 2023:

<https://www.llyw.cymru/dogfen-cyflog-ac-amodau-athrawon-ysgol-cymru-2023>

<https://www.llyw.cymru/dogfen-cyflog-ac-amodau-athrawon-ysgol-cymru-2023>

Fersiwn diwygiedig 2022:

<https://www.llyw.cymru/dogfen-cyflog-ac-amodau-athrawon-ysgol-cymru-2022-diwygiedig-medi-2023>

<https://www.llyw.cymru/dogfen-cyflog-ac-amodau-athrawon-ysgol-cymru-2022-diwygiedig-medi-2023>

Dyfarniad Cyflog Staff Cymorth (Cyd-gyngor Cenedlaethol)

Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog ar gyfer staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar 1 Tachwedd 2023 fel y manylir isod. Mae'n debygol y bydd taliadau ôl-ddyddiedig yn cael eu gwneud ym mis Rhagfyr.

Am flwyddyn, 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

- £1,925 (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser) i'w dalu fel ychwanegiad cyfunol, parhaol ar holl bwyntiau cyflog 2 i 43 y Cyd-gyngor Cenedlaethol gan gynnwys y pwyntiau hynny
- 3.88% ar bob pwynt tâl 43 ac uwch (ond wedi'i raddio islaw'r dirprwy brif swyddog yn unol â Rhan 2 y Llyfr Gwyrdd Para 5.4)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y materion uchod, cysylltwch â'ch Partner Busnes Adnoddau Dynol neu fi.

Sue Alderman
Prif Bartner Busnes AD
stalderman@bromorgannwg.gov.uk

Cefnogi Lles ac Iechyd Meddwl Staff Ysgolion Bro Morgannwg

Drwy'r broses o hunanwerthuso ar gyfer datblygu 'Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol', roedd llawer o'n hysgolion ym Mro Morgannwg yn blaenoriaethu lles y gweithlu / staff fel maes gweithredu. Mae tystiolaeth wedi hen tynnu sylw at y ffaith y gall materion sy'n effeithio ar les athrawon gael sgil-effaith sylweddol ar les dysgwyr. Mae athrawon sy'n iach yn emosiynol ac yn feddyliol yn gallu meithrin perthnasoedd cryf rhwng athrawon a dysgwyr yn well.

Mae canlyniadau 'Mynegai Lles Athrawon' diweddaraf y DU o Gymorth Addysg yn syfrdanol, gyda'r nifer uchaf erioed o ymatebwyr yn nodi straen cysylltiedig â gwaith (78%, cynnydd o 3% ers 2022) a 55% yn nodi bod diwylliant sefydliadol eu gweithle yn cael effaith negyddol ar eu lles (cynnydd o 13% ers 2022). Hyd yn oed yn fwy pryderus yw bod 39% o athrawon wedi dweud eu bod yn dioddef o broblem iechyd meddwl, y lefel uchaf ers i'r arolwg ddechrau.

Mae nifer o wasanaethau a mentrau ar gael fel ymateb i'r angen cenedlaethol a lleol hwn. Cefnogwch eich ysgolion i hyrwyddo a defnyddio'r rhain yn eang.

Cymorth gan yr Awdurdod Lleol

Mae timau o fewn yr Awdurdod Lleol yn darparu cefnogaeth a mynediad at gymorth arbenigol i ysgolion a staff gan gynnwys cynnig Cymorth i Weithwyr newydd, sy'n disodli **Westfield Health** ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth 24 awr y dydd. Mae cwnsela strwythuredig ar gael gan Iechyd Galwedigaethol yn unig mwyach. Gall y Gwasanaeth Ymgysylltu yn Ysgol y Deri hefyd gynnig goruchwyliaeth broffesiynol i Uwch Arweinwyr mewn ysgolion - <https://www.yyd.org.uk/team-3>

Gwasanaeth Cyngori Ysgolion Rhanbarthol – Cymorth Addysg

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth RHAD AC AM DDIM hwn yn rhoi cymorth i ysgolion ledled Cymru i flaenoriaethu lles. Gall Ymgynghorydd Rhanbarthol pwrpasol ddarparu adnoddau ac arweiniad ar bolisiau, arferion a strategaethau i helpu ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles staff. Gall hyn gynnwys cymorth i ddatblygu cynllun gweithredu wedi'i deilwra, arolwg staff a sefydlu grŵp lles staff, cynnal gweithdai lles a darparu goruchwyliaeth unigol a grŵp. Mae'r cynnig i ysgolion yn cynnwys pob aelod o staff, o staff cyflenwi i Gynorthwywyr Addysgu.

<https://www.educationsupport.org.uk/get-help/help-for-your-staff/llesiant-yng-nghymru/gwasanaeth-cyngori-ar-lesiant/>

Hefyd ar gael mae'r cymorth emosiynol cyfrinachol am ddim a gynigir i staff yr ysgol drwy linell gymorth yr elusen.

<https://www.educationsupport.org.uk/get-help/help-for-you/helpline/>

Cefnogaeth gan Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru

Gall 'Tîm Ysgolion Iach Bro Morgannwg' lleol ddarparu cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant ar roi'r 'Dull Ysgol Gyfan o Weithredu Lles Emosiynol a Meddyliol' ar waith. Anogwch staff sy'n gyfrifol am les a hybu iechyd yn eich ysgol i gofrestru ar gyfer tudalen rhwydwaith 'Ysgolion Iach Bro Morgannwg' ar hwb. Mae'n rhoi mynediad at ystod eang o adnoddau hybu iechyd gan gynnwys dogfen ganllaw a ddatblygwyd yn genedlaethol ar les staff ysgolion. Mwy o wybodaeth am y cynllun yma;

<https://bipcaf.gig.cymru/patient-advice/tim-iechyd-cyhoeddus-lleol-caerdydd-ar-fro/meysydd-ffocws-allweddol/ysgolion-iach-a-chyn-ysgol/cynllun-ysgolion-iach/>



Cydymffurfiaeth Corfforaethol

Cwrdd â'n Tîm

Geoff Twigg, Rheolwr Cydymffurfio Corfforaethol

Ffôn: 029 20673010 GLTwigg@valeofglamorgan.gov.uk

Andrew Treweek, Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Adeiladu ffôn: 02920 673036
atreweek@valeofglamorgan.gov.uk

Gan ddefnyddio ein harbenigedd mewnol, neu sicrhau contractwyr arbenigol, gallwn dynnu'r pryder allan o'ch cyfrifoldebau cydymffurfiaeth adeiladau mewn ysgolion ac adeiladau cyhoeddus eraill.

Mae'r Tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol yn cynnal ymweliadau safle cychwynnol mewn perthynas â chydymffurfiaeth adeiladau i sefydlu eich anghenion cydymffurfio, p'un ai'n statudol neu wedi eu hargymell.

Mae cynnal a chadw a rheoli adeiladu yn rhan hanfodol o'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn ein holl ysgolion ac mae cyfrifoldeb clir ar reolwyr ac uwch aelodau staff i sicrhau bod systemau adeiladu a gosodwaith yn ddiogel i'w defnyddio. Gall methu â chwblhau'r gwiriadau a'r archwiliadau cydymffurfio perthnasol arwain at ganlyniadau difrifol a byddai'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch yn ceisio erlyn a hyd yn oed carcharu lle mae'r methiannau yn sylweddol. Er mwyn cefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethu, mae gan y Cyngor dîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol ar waith i archwilio cydymffurfiaeth adeiladau mewn ysgolion. Mae cyfyngiadau ar y gweithgareddau y gall y tîm hwn eu cyflawni, ond maent ar gael i gynnig arweiniad i ysgolion er mwyn eich cefnogi i gyflawni'r cyfrifoldebau sydd gan benaethiaid a llywodraethwyr.

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni eich cyfrifoldebau fel corff llywodraethu, argymhellir bod gennych eitem agenda reolaidd i'ch Pwyllgor Safleoedd adolygu cydymffurfiaeth adeiladau a gwirio'r canlynol:

	Gwasanaeth	Cynnyrch archwiliad	Arsylwadau/ gweithredoedd	Gweithgaredd	Camau Llywodraethu Posibl
	Gosodwaith Nwy	Llwyddo / Methu	Bydd peiriannydd yn lleihau risg sylweddol trwy ynysu'r system nwy.	Bob blwyddyn	Gwirio'r gwasanaeth a'r archwiliad wedi'i gwblhau
Trydanol	Gosodwaith Trydanol Sefydlog	Methiant wedi'i raddio	Mae methiannau a diffygion o fewn y gosodwaith yn cael eu codio/graddio - o drwsio brys/ar unwaith a gellir cau rhannau o'r system, tra bod mân ddiffygion eraill yn cael eu nodi ac nid oes angen sylw arnynt ar unwaith.	Bob tair/pum mlynedd	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i gael ei gwblhau

	Gwasanaeth	Cynnyrch archwiliad	Arsylwadau/ gweithredoedd	Gweithgaredd	Camau Llywodraethu Posibl
	Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT)	Llwyddo / Methu	Dylid gwneud eitemau sydd wedi methu yn ddiwerth ar adeg yr archwiliad a dylai rheolwr y safle waredu ac amnewid yr offer. Yn gyffredinol, nid oes stocrestr ar gael i sicrhau bod yr holl offer wedi'u profi ond dylid labelu'r holl offer sy'n weladwy yn briodol.	Bob dwy flynedd	Sicrhau bod gan offer dag/sticer archwiliad ac nad yw'n hŷn na 2 flynedd
	Goleuadau Argyfwng	Methiant wedi'i raddio	Mae methiannau a diffygion a nodwyd yn y gosodwaith yn cael eu graddio - o drwsio brys/ar unwaith i argymell bodloni'r cod cyfredol.	Ddwyaih y flwyddyn	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i gael ei gwblhau
	Goleuadau Llwyfan	Methiant wedi'i raddio	Mae methiannau a diffygion a nodwyd yn y gosodwaith yn cael eu graddio - o drwsio brys/ar unwaith i argymell bodloni'r cod cyfredol	Bob blwyddyn	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i gael ei gwblhau
Tân	Asesiadau Risg Tân. (Swyddogaeth lechyd a Diogelwch)	CMG	Bydd yr arolwg yn nodi gwelliant ffisegol i'r adeiladau a gofynion cynnal a chadw i ddangos gweithgaredd cynnal a chadw, dylid cadw cofnod wedi'i lofnodi o weithgaredd dyddiol, wythnosol, misol ac ati.	Bob Tair/pum mlynedd	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau.

	Gwasanaeth	Cynnyrch archwiliad	Arsylwadau/ gweithredoedd	Gweithgaredd	Camau Llywodraethu Posibl
					Hefyd sicrhau bod drysau tân yn cael eu cadw ar gau a'u bod yn cau'n iawn.
	System canfod tân	Methiant wedi'i raddio	Bydd angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o gamau adeiladu a rheoli a byddant yn cynnwys gwasanaethu'r gosodwaith yn gylchol, cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau wythnosol wedi eu cofnodi yn ogystal ag adfer y gosodwaith.	Blynyddol/ Wythnosol	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i gael ei gwblhau
	Offer Diffodd Tân	Llwyddo/ Methu	Dylai symud offer sydd wedi methu o'r safle gan y peiriannydd archwilio a dylid trafod offer newydd gyda rheolwr y safle.	Bob blwyddyn	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i gael ei gwblhau
	Systemau chwistrellu	Llwyddo/ Methu	Bydd pennau chwistrellwyr yn cael eu cofnodi fel methiant a bydd y cofnod archwilio yn nodi methiant. Bydd methiant yn cael ei gofnodi fel tystysgrif sy'n weddill.	Bob blwyddyn	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i'w gwblhau
	Peipiau Sych	Llwyddo/ Methu	Bydd peipiau sych yn cael eu cofnodi fel methiant a bydd y cofnod archwilio yn nodi methiant. Bydd methiant yn cael ei gofnodi fel tystysgrif sy'n weddill. Mae	Bob blwyddyn	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i

	Gwasanaeth	Cynnyrch archwiliad	Arsylwadau/ gweithredoedd	Gweithgaredd	Camau Llywodraethu Posibl
			namau mewn peipiau gwlyb yn fwy tebygol o ollwng i mewn i'r adeilad a bydd rheolwyr y safle o bosibl wedi sylwi a gweithredu (dau adeilad yn unig)		gynllunio i'w gwblhau
Micro Biologol	Asbestos	Asesiad yn Seiliedig ar COG	Mae cynhyrchion asbestos a nodir trwy archwiliad anymwithiol yn cael eu cofnodi a'u monitro yn ystod archwiliad blynyddol. Dylai unrhyw waith a wneir ddiweddarau'r cynllun rheoli	Bob blwyddyn	Sicrhau bod arolwg Adnewyddu a Dymchwel yn cael ei gwblhau cyn cyfarwyddo unrhyw addasiadau i'r ysgol (Ddim yn berthnasol mewn ysgolion mwy newydd)
	Legionella	Argymhelliad yn Seiliedig ar COG	Bydd angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o gamau adeiladu a rheoli a byddant yn cynnwys gwasanaethu'r gosodwaith yn gylchol, cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau wythnosol wedi eu cofnodi yn ogystal ag adfer y gosodwaith.	Blynyddol/ Wythnosol	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio ar gyfer ei gwblhau. Hefyd, sicrhau bod profion rheolaidd ar dymheredd tapiau a rhedeg arllwysfeydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml yn cael eu cofnodi'n wythnosol (hyd yn oed yn ystod

	Gwasanaeth	Cynnyrch archwiliad	Arsylwadau/ gweithredoedd	Gweithgaredd	Camau Llywodraethu Posibl
					gwyliau'r ysgol)
Arall	Lifftiau	Methiant wedi'i raddio	Bydd asesydd yswiriant yn darparu argymhellion ac amserlen ar gyfer gwaith adfer yn erbyn pob un. Gallai argymhellion amrywio o ynysu lifft ar unwaith i gynnal a chadw tymor hwy.	Chwarterol	Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i'w gwblhau
	Dargludyddion Mellt	Llwyddo/ Methu	Tystysgrif wedi ei chyhoeddi gydag argymhellion ar gyfer daearu effeithiol pan fydd melltlen yn taro.		Sicrhau bod adroddiad yr archwiliad wedi cael ei gyhoeddi a bod unrhyw waith adfer wedi'i gynllunio i'w gwblhau

Mae'r tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol yn cadw golwg ar bob tystysgrif ac yn hysbysu'ch ysgol pan fydd y rhain ar fin dod i ben. Byddant hefyd yn cysylltu â'r Pennaeth ynghylch ardystiad sy'n weddill os nad yw wedi dod i law. Mae'n berthnasol nodi, lle mae argymhellion i gwblhau gwaith wedi'u gwneud i unioni diffygion ar adeg yr archwiliad, ni all y tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol benderfynu a yw hyn wedi'i ddatrys neu ei gynllunio ar gyfer unioni. Fe'ch cynghorir felly i fodloni eich hun bod y camau priodol yn cael eu cymryd a bod digon o gyllideb ar gael i gadw'r ysgol yn ddiogel.

Nid yw'r gwiriadau a gwmpesir gan y Tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol yn cynnwys peth offer nad ydynt yn rhan o'r adeilad megis offer chwarae, coed, peiriannau codi cludadwy, ac ati ac efallai y byddwch hefyd am ychwanegu'r rhain at eich rhestr wirio.

Defnyddio Cyfryngwyr Trydydd Parti/Broceraid ar gyfer caffael cyfleustodau

Pwrpas yr erthygl hon yw rhoi gwybodaeth, arweiniad a chynghor i ddefnyddwyr ynni'r Sector Cyhoeddus ar gwestiynau priodol i'w gofyn i Frocraiaid / Cyfryngwyr Trydydd Parti i bennu eu galluoedd a'u haddasrwydd ar gyfer darparu contractau cyflenwi Ynni Hyblyg i'r Sector Cyhoeddus. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gadw at egwyddorion "Rheoli Arian Cyhoeddus", mae hyn yn cynnwys egwyddorion 'rheoli risg' wrth gymryd rhan mewn marchnadoedd nwyddau (Trydan a Nwy). Gall y sector ynni fod yn lle anodd i'w lywio, yn enwedig pan fydd 'Brocer' yn cysylltu â chi. Unig bwrpas brocraiaeth yw gwneud arian trwy gomisiynau, nad ydynt bob amser yn dryloyw, a gellir eu cuddio ymhlith taliadau eraill.

Yn gyntaf - Mae'n bwysig cael pob cynnig yn ysgrifenedig, datganiad clir o'r taliadau sy'n berthnasol i'r corff contractio sector cyhoeddus ac, yn bwysicaf oll, ddatganiad ysgrifenedig neu 'warant' i gadarnhau mai'r unig incwm y mae'r cyfryngwr yn ei ennill o'r contract yw'r ffioedd sy'n daladwy gan

y corff contractio sector cyhoeddus ac nad oes unrhyw incwm 'cudd / heb ei ddatgelu' sy'n deillio o weithgarwch masnachu na'r berthynas â'r cyflenwyr.

Dyma rai baneri coch i gadw llygad amdanynt:

Comisiynau heb eu datgan

Fel arfer, mae ymgynghorwyr yn cael eu comisiwn mewn un o ddwy ffordd; naill ai'n uniongyrchol gan y cwsmer neu drwy 'daliad chwyddo' sydd fel arfer yn cael ei gynnwys yn y c/kwh (ceiniog fesul cilowat yr awr). Dylid dweud wrth y cwsmer yn benodol faint o gomisiwn y mae brocer yn ei dderbyn ac o ba ffynhonnell.

Comisiynau dwbl

Weithiau gall broceriaid gael comisiwn ddwywaith, unwaith gan y cwsmer ar ffurf ffi reoli ac yna eto gan y cyflenwr. Mae gennych hawl i wybod faint o gomisiwn y maent yn ei gael a sut maent yn ei dderbyn.

Cymhellion cyflenwr sy'n seiliedig ar gwota

Mae gan rai cyflenwyr gwotâu wedi'u gosod gyda chyflenwyr penodol y mae angen iddynt eu cyflawni. Mae hyn yn golygu bod cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at gyflenwyr nad ydynt bob amser y rhai gorau iddyn nhw, neu rai nad ydynt yn bodloni eu hanghenion. Mae hyn yn golygu nad oes tendro cystadleuol yn digwydd. Nid yw arfer o'r fath yn cydymffurfio â gweithdrefnau OJEU (Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd) gan ei fod yn wrth-gystadleuol.

Diffyg darpariaeth gwasanaeth

Nid yr hyn a addawyd gan y gwerthwr yw'r hyn a ddarperir bob amser ac mae cwsmeriaid yn cael eu gadael gyda gwasanaeth is-safonol. Diffiniwch yn ysgrifenedig pa ofynion gwasanaeth a ddylai fod o fewn y contract. Dylid dogfennu'r rhain yn ysgrifenedig cyn gwneud contract.

Diffyg arbenigedd masnachu ar gyfer rheoli contract hyblyg

Mae marchnadoedd Trydan a Nwy yn hynod gymhleth. Trwy ddefnyddio brocer, rydych chi'n talu am farn arbenigol ymgynghorwyr o'r farchnad fel y gallant reoli risg contract hyblyg. Fodd bynnag, nid oes gan rai ymgynghorwyr lawer o brofiad gwirioneddol o sut i 'fasnachu' yn effeithiol o fewn canllawiau "Rheoli Arian Cyhoeddus". Ydyn nhw'n gwbl gyfarwydd ag egwyddorion "Rheoli Arian Cyhoeddus" (MPM), pa reolaethau 'llywodraethu' sydd ar waith a pha sicrwydd ysgrifenedig a ddarperir?

Argymell strategaeth anaddas

Mae'n well gan ymgynghorwyr ddefnyddio dull portffolio o reoli cwsmeriaid gan ei fod yn rhatach ac yn haws ei weinyddu. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw'r gwasanaeth y mae'r cwsmer yn ei gael wedi'i deilwra i'w anghenion unigol ac efallai nad dyma'r strategaeth orau ar ei gyfer. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gadw at egwyddorion "Rheoli Arian Cyhoeddus", mae hyn yn cynnwys egwyddorion 'rheoli risg' wrth gymryd rhan mewn marchnadoedd nwyddau (Trydan a Nwy).

Arferion gwrth-gystadleuol

Dylai ymgynghorydd da bob amser gynrychioli buddiannau pennaf cwsmeriaid. Dylent ddod o hyd i'r ateb mwyaf priodol ar gyfer y cleient a darparu gwerth am arian. Dylai unrhyw 'Lythyr Awdurdod' (LOA) gynnwys datganiad penodol sy'n nodi bod y berthynas yn cael ei llywodraethu gan 'Gyfraith Asiantaeth' a bod yn rhaid i'ch asiant weithredu er eich budd pennaf bob amser.

Comisiynau cuddiedig cynyddol mewn amgylchedd marchnad sy'n gostwng

Mae rhai ymgynghorwyr yn defnyddio amodau 'gostyngol' yn y farchnad i gynyddu eu comisiynau cuddiedig heb basio ymlaen yn llawn brisiau is y farchnad. Dylech bob amser ddefnyddio gwarant incwm cyfreithiol rwymol ar y pwynt contractio.

'Consurio' Cudd

Gweithgaredd masnachu nad oes llawer o bobl yn gwybod amdano lle mae ynni'n cael ei brynu o farchnad awdurdodedig am 'ostyngiad' i gost y farchnad a'i roi ar y contract cyflenwi am elw nas datgelwyd. Sicrhewch bob amser fod gennych yr hawl i dderbyn 'cadarnhad masnach / tocynnau dêl' i ddangos tystiolaeth o'r partion contractio a'r costau a fasnachwyd.

Cwestiynau defnyddiol i'w gofyn:

1. "Pa gymalau % "Cyfaint / Amrywiad" (a elwir hefyd yn 'Cymryd neu Dalu') sydd ar eich contractau cyflenwi?
Dylai'r ateb fod rhwng 10-20%.
2. "Beth yw cyfanswm y cyfaint mewn Terra Watt yr Awr rydych chi'n ei fasnachu yn eich basged?"
Mae canllawiau Trysorlys EF yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Sector Cyhoeddus fanteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd cyfanredeg ar gyfer pob gweithgaredd caffael.
3. "Oes gennych chi eich ystafell fasnachu eich hun ac os felly, faint o staff sy'n gweithio ynddi?"
4. Os mai'r ateb i 3 yw "Nac oes" gofynnwch – "Felly rydych chi'n dibynnu ar Ddesgiau Optimeiddio elw cyflenwyr i ymgymryd â'r masnachu ar eich rhan?"
5. "Pa ganran o'ch basged sy'n cael ei masnachu fel Llwyth Sylfaen a pha % sy'n cael ei thrin fel Gweddilliol / Brig yn eich ymarfer siapio cyflenwr diwethaf?"
6. "Sut ydych chi'n prynu'r cyfeintiau Gweddilliol / Brig?"
Yr atebion posibl yw 1. Rydym yn ei fasnachu ar ein marchnad 'Frig' (OSGOWCH hyn - mae'n ddrud iawn) 2. Rydym yn negodi pris sefydlog / kwh cyn cyflenwi bob mis / chwarter / Tymor / Blwyddyn 3. Mae'n cael ei negodi ar ddechrau'r contract cyflenwi mewn ffordd debyg i gontract cyflenwi pris sefydlog
7. "Ydych chi'n cydymffurfio â chanllawiau Rheoli Risg Trysorlys EF? Sut gallaf fod yn sicr bod eich 'strategaeth ymddiogelu / gweithgaredd masnachu' yn cydymffurfio â pholisi Trysorlys EF? Pwy sy'n archwilio eich swyddogaeth Fasnachu?"
8. "Ydych chi'n codi 'ffioedd siâp', os felly, faint?"
9. "A fyddai'n rhaid i mi dalu comisiynau / ffioedd / taliadau / meintiau ar fy masnachau, os felly, faint?"
10. "Ydych chi'n prynu ac yn gwerthu ar y prisiau 'Cynnig' neu faint y tu hwnt i'r rhain?"
Os oes maint y tu hwnt i'r pris Cynnig yna mae'n gomisiwn Brocer a/neu elw cyflenwr.
11. "Faint cyn y dyddiad cyflenwi 1af ydych chi'n masnachu Llwyth Sylfaen cwsmer?"
Mae canllawiau Trysorlys EF yn argymhell 30 mis (3 blynedd) i ledaenu risg nwyddau yn effeithiol h.y. trwy CCS.
12. "Ydych chi'n darparu cyfleuster 'gwerthu'n ôl' ac os felly, faint ydych chi'n ei godi?"
13. "Ydych chi'n gweithredu Pwyllgor Risg a Llywodraethu ac os felly, a yw'n cynnwys cynrychiolwyr cwsmeriaid a phwy yw'r Cadeirydd?"
14. A fydddech yn fodlon llofnodi indemniad cyfreithiol llawn i sicrhau ein Hawdurdod o'ch cydymffurfiaeth â "Chyfrifoldeb Ymddiriedol" yn ogystal â 'gwarant' sy'n gyfreithiol rwymol ar eich incwm / ffioedd / comisiynau uchaf i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF ar dryloywder?
15. "A allwn ni fynd i mewn a gadael eich basgedi / portffolio cyfanredol ar unrhyw adeg?"

Efallai y bydd y weminar ganlynol yn ddefnyddiol:

<https://www.crowncommercial.gov.uk/webinar/request/48445/how-to-complete-an-energy-review-and-working-with-third-parties>

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2022-24

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	P	Cate	Ysgol Gynradd Parc Jenner
2	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Edlwys yng Nghymru Gwenfo D/W
3	Ms	J	Evans	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	G	Griffiths	Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Sant Curig
6	Cllr Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd y Rhws
7	Mrs	C	Hunt	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Nicholas D/W
8	Mrs	S	Jenkins	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Andrews ac Ysgol Gyfun Sant Cyres Cynhwysfawr
9	Dr	C	Lee	Ysgol Gyfun Sant Cyres Cynhwysfawr
10	Cllr Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
11	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
12	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansanwyr D/W
13	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
14	Mr	O	Williams	Ysgol Sant Baruc
15	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
Tymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)				
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd - Lucy Barrowclough - Ysgol Gynradd Llandochaul				
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd - Ghislaine van de Burgt - Whitmore High School				



Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda